# Rhaglen

## Gwanwyn 2026




**ROYAL WELSH COLLEGE**
OF MUSIC & DRAMA
**COLEG BRENHINOL**
CERDD A DRAMA CYMRU

**WWW.RWCMD.AC.UK**

## Croeso i'n tymor Gwanwyn sy'n llawn artistiaid disglair, adrodd straeon doniol a chydweithrediadau cyffrous.

Mae stori anorffenedig gan awdur poblogaidd ac un achos o frad mwyaf drwg-enwog hanes yn ganolbwynt i Gwmni Richard Burton; ymunwch â ni ar gyfer y ddrama ffraeth ac anghonfensiynol gan Jane Austen, 'The Watsons', a'r ddrama llys hynod ddoniol 'The Last Days of Judas Iscariot'. Bydd ein perfformwyr theatr gerddorol yn mynd â chi ar daith anarchaidd lawen yn y sioe gerdd 'Cry-Baby' a bydd Ysgol Opera David Seligman yn dewis y porth i uffern, yn yr opera gomig tywyll 'Orpheus in the Underworld'.

Ni fydd detholiad y tymor hwn o sêr y byd cerddoriaeth yn siomi; o'r feiolinydd meistrolgar James Ehnes i ddatganiadau piano rhamantus gan Lise de Salle ac Alim Beisembayev. Mae'r canwr jazz gwobrwyedig Ian Shaw yn mynd i'r afael â cherddoriaeth eiconig Sondheim, Pedwarawd Carducci yn dathlu 90 mlynedd o Steve Reich, ac rydym yn croesawu'r ffliwtydd Carnatic byd-enwog, Shashank Subramanyam.

Gan archwilio arddulliau perfformio newydd a dylanwadau amrywiol, bydd ein cerddorion yn gweithio gydag un o chwaraewyr tiwba mwyaf clodwiw'r byd, Sergio Carolino yn dangos pŵer mynegiannol offerynnau pres isel, yn ogystal â'r cyfansoddwr/troellwr disgiau Shiva Feshareki sy'n tynnu ar ddylanwad ei threftadaeth Persiaidd mewn gosodiad-berfformiad 3D arloesol. Daw'r sacsoffonydd Julian Argüelles ynghyd â'n cerddorfa jazz mewn rhaglen yn llawn rhythmau o Sbaen a De Affrica.

Byddwn yn llenwi Neuadd Dora Stoutzker â cherddoriaeth o Gymru ar Ddydd Gŵyl Dewi ac yn rhoi sylw i gerddoriaeth gan gyfansoddwyr benywaidd ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. I deuluoedd, mae'r ddrama gynnes 'The Zoo that comes to you' yn trafod cadwraeth anifeiliaid ac mae ein diwrnodau offerynnol ieuenctid yn rhoi cyfle i gerddorion ifanc sy'n dod i'r amlwg ddatblygu eu sgiliau. Cymerwch olwg ar yr hyn sydd i ddod!

Ewch i **https://www.rwcmd.ac.uk/cy/plan-your-visit** i gael rhagor o wybodaeth am docynnau, sut i ddod o hyd i ni, archebion grwpiau ac ysgolion a mwy.

Mae Bar y Caffi yn cynnig amrywiaeth eang o fwyd, cacennau a diodydd, ac mae nawr ar agor cyn perfformiadau ac yn ystod yr egwylion. Cadwch lygad am ein Cyfuniad Diod a Byrbryd.

**Wyddoch chi?** Mae fersiwn sain a phrint bras o'r llyfryn hwn ar gael. Ewch i: **www.rwcmd.ac.uk/cy/access-guide**

Rydym yn rhan o gynllun cenedlaethol o'r enw Hynt sy'n rhoi'r arfer gorau oll i gwsmeriaid o ran polisi tocynnau teg a hygyrchedd.

Diolch i nawdd hael gan Unite Students, mae gan unrhyw fyfriwr sy'n byw mewn llety Unite yng Nghaerdydd hawl i docyn am £3. Chwiliwch am y symbol Unite i weld y digwyddiadau sy'n berthnasol.

Rydym yn falch o fod yn Bartner Cydnabyddiaeth Credydau Amser Tempo, sy'n cynnal cynllun gwobrwyo a chydnabyddiaeth ar gyfer gwirfoddolwyr yn y gymuned. Gallwch ddarganfod mwy yn **www.wearetempo.org**

## Cynnwys

3 Digwyddiadau am ddim
4 Cwmni Richard Burton
5 Theatr Gerddorol a Dylunio
6 Opera
7 Cwmnïau ar ymweld
8 Teuluoedd
9 Cerddoriaeth
21 Cystadlaethau a gwobrau
22 Cyngherddau awr ginio
24 Ymunwch i mewn

Maes y Castell,
Parc Cathays, Caerdydd
029 2039 1391

Archebwch Ar-lein:
rwcmd.ac.uk/cy/whats-on

Cefnogir y rhaglen perfformiadau myfyrwyr gan Cyswllt
rwcmd.ac.uk/support-us

Llun clawr: Our House, gan Kirsten McTernan








## AmserJazzTime

**16 Ion – 27 Maw**
**Pob nos Wener 5.30pm**

Mae noson jazz fwyaf poblogaidd Caerdydd yn ôl y tymor hwn gyda'r genhedlaeth nesaf o berfformwyr jazz.

Cyntedd Carne

## Bar Sain

**Iau 12 Chwe & Iau 26 Maw 6pm**

Darganfyddwch synau ac arddulliau perfformio newydd gan ein myfyrwyr cyfansoddi - cerddoriaeth gyfoes ar ei gorau.

Cyntedd Carne

## Arddangosfa Propiau Enfawr

**Llu 2 Maw – Iau 2 Ebr**

Meddyliwch yn fawr! Byddwch yn barod i gael eich synnu gan y propiau enfawr hyn a grëwyd gan ein hadran Cynllunio.

Galeri Linbury

## Caffi Clasurol

**Iau 22 Ion – Iau 19 Maw 6pm**

Perfformiadau disglair ar raddfa fach sy'n cynnwys cerddorion o'n hadrannau pres, llinynnau, offerynnau taro a mwy.

Cyntedd Carne

## Cabaret yn y Coleg

**Mer 28 Ion & Mer 11 Maw 6pm**

Caneuon poblogaidd o'r llwyfan a'r sgrin yn cael eu perfformio gan ein perfformwyr theatr gerddorol dawnus.

Cyntedd Carne

## Make: Space

**Llu 19 Ion – Iau 2 Ebr**

Arddangosfa yn dathlu sgiliau datblygol ein hadran Cynllunio ar gyfer Perfformio, gan ganolbwyntio ar wneud propiau, prosiectau cynllunio ac ail-greu gwisgoedd.

Galeri Linbury


Make: Space



Salem

# The Watsons

14+ Oed

**Iau 5 – Mer 11 Maw 7pm**
**Mer 11 Maw 2pm**

Mae Emma Watson yn 19 oed ac yn newydd yn y dref. Wedi'i gwrthod gan ei modryb gyfoethog a'i dychwelyd i'r cartref teuluol, rhaid i Emma a'i chwiorydd briodi, a hynny'n gyflym. Yn ffodus, mae digon o gariadon posibl i ddawnsio â nhw, o'r Tom Musgrave fflyrtiog i'r Arglwydd Osborne a'i gastell, sydd yr un mor lletchwith ag ydyw o gyfoethog. Yr un stori gyfarwydd. Ond mae yna un broblem fach, mae'r stori hon yn anghyflawn... Yn seiliedig ar nofel anorffenedig Jane Austen, mae'r ddrama hynod ffraeth hon yn edrych o dan foned Jane Austen ac yn archwilio esblygiad cymeriadau a'u posibiliadau llenyddol diddiwedd.

Gan **Laura Wade**
Cyfarwyddwr **Emily Ling Williams**

**Theatr Richard Burton**
**£8-£16**

UNITE STUDENTS



Pomona

# The Last Days of Judas Iscariot

14+ Oed

**Gwe 6 – Mer 11 Maw 7.15pm**
**Maw 10 Maw 2pm**

Yr achos: Teyrnas y Nefoedd a'r Ddaear yn erbyn Judas Iscariot.

Yn y ddrama llys hynod ddoniol a rhyfeddol hon, mae brad mwyaf drwg-enwog hanes yn cael ei ddadansoddi gan rymoedd da a drwg. Mae ffigurau megis Pontius Peilat, y Fam Theresa a Sigmund Freud yn cael eu galw i roi tystiolaeth mewn llys sydd â chymaint o ddyled i'r ghetto ag i'r Efengylau. Mae Stephen Adly Guirgis yn defnyddio egni treisgar, anhrefnus Dinas Efrog Newydd i archwilio cwestiynau oesol ewyllys rydd a chyfrifoldeb.

Gan **Stephen Adly Guirgis**
Cyfarwyddwr **Chris Sonnex**

**Theatr Bute**
**£8-£16**

UNITE STUDENTS

# Sioe Arddangos Actorion

16+ Oed

**Gwe 30 Ion 7pm**
**Sad 31 Ion 2pm & 7pm**

Cyfle i weld y dosbarth actio '26 yn dangos eu doniau.

**Theatr Bute**
**£6-£12**

UNITE STUDENTS



Hamlet





Cry-Baby

# Cry-Baby

**Sad 14 – Iau 19 Chwe 7pm**
**Mer 18 Chwe 2pm**

Gan awduron Hairspray, bydd gwrthryfel cwlt glasurol John Waters yn ffrwydro ar y llwyfan gyda riffiau gitâr, camymddwyn a dychan hyfryd o'r 1950au. Dewch i gwrdd â Wade 'Cry-Baby' Walker, bachgen da mwyaf drwg Baltimore, ac Allison, y ferch annwyl sy'n syrthio mewn cariad ag ef a'i griw o alltudion mewn lledr. Wrth i aelodau traddodiadol cymdeithas ddatgan rhyfel yn erbyn y criw roc a rôl anaddas, mae'r sioe gerdd ogoneddus, aflonydd hon yn tanio'n derfysg o ramant, gwrthryfel a rocio. Gyda'i ffraethineb miniog a'i hiwmor tafod yn y boch, nid sioe gerdd hyfryd nodweddiadol yw hon!

Cyfarwyddwr **Alex Sutton**
Cyfarwyddwr Cerddorol **Jon Beales**

Llyfr gan **Thomas Meehan & Mark O'Donnell**
Cerddoriaeth a Geiriau
**Adam Schlesinger & David Javerbaum**

Yn seiliedig ar y ffilm gan Universal Pictures ysgrifennwyd a chyfarwyddwyd gan **John Waters**

**Theatr Bute**
**£8-£16**

Cyflwynir Cry-Baby trwy drefniant arbennig gyda Music Theatre International (MTI). Mae'r holl ddeunyddiau perfformio awdurdodedig hefyd yn cael eu cyflenwi gan MTI. **www.mtishows.com**

# Y Sioe Gelf Wisgadwy

7+ Oed

**Maw 24 – Iau 26 Maw 7.15pm**
**Mer 25 & Iau 26 Maw 1pm**

Mae ein sioe ffasiynau arloesol yn cynnwys cymeriadau a grëwyd o sgrap a deunydd wedi'i ailgylchu. Peidiwch â cholli'r perfformiad unigryw hwn o ddawns, golau a cherddoriaeth, sy'n berffaith ar gyfer rhai 7 oed a hŷn.

**Theatr Bute**
**£6-£12**

UNITE STUDENTS



Y Sioe Gelf Wisgadwy

# Sioe Arddangos Theatr Gerddorol

16+ Oed

**Gwe 20 Maw 7.30pm**
**Sad 21 Maw 2pm a 7.30pm**

Cyfle i weld y dosbarth theatr gerddorol '26 yn dangos eu doniau.

**Theatr Richard Burton**
**£6-£12**

UNITE STUDENTS

# ORPHEUS in the UNDERWORLD

**Gwe 20 – Maw 24 Maw 7pm**

Mae Orpheus in the Underworld dychanol Offenbach yn troi myth hynafol yn opera gomig ar ei mwyaf chwareus. Mae Eurydice wedi cael digon o Orpheus, ond nid yw Orpheus yn malio dim, ac mae'r duwiau'n rhy brysur yn partio i boeni. Gyda sgôr ddisglair yn cynnwys y cancan enwog, hiwmor miniog, a deialog sy'n symud yn gyflym. Ymunwch â ni am daith lawen i'r isfyd lle mae chwerthin, anhrefn, a cherddoriaeth anorchfygol Offenbach yn teyrnasu!

Gan **Jacques Offenbach**
Arweinydd **David Jones**
Cyfarwyddwr **Matthew Eberhardt**

Neuadd Dora Stoutzker
**Dewis Pris: Darbodus £22 | Pris arferol £24 | Talu ymlaen £26**

Wedi'i chanu yn Saesneg
Cefnogir gan Gronfa Cyswllt

UNITE STUDENTS

12+ Oed

## Golygfeydd Opera

**Iau 29 Ion 7pm**
**Gwe 30 Ion 2pm**

UNITE STUDENTS

Mae ein perfformwyr opera yn plymio i olygfeydd cyfarwydd o operâu poblogaidd ynghyd â pherlau llai adnabyddus.

Theatr Richard Burton
£7.50-£15



Llun gan Kirsten McTernan





## Dame Heccatty Wyrdsister & the instruments of darkness do Macbeth

**Iau 12 Chwe 7.30pm**

Beth sy'n digwydd pan gewch bedwarawd llinynnol a chyngerdd byr, eu hychwanegu at gynhyrchiad o Macbeth gan Shakespeare wedi'i adrodd o safbwynt Heccatty y wrach, a chreu cast o'r gynulleidfa a fyddai'n gwneud yr RSC yn falch? Penderfynodd Cosmic Music ddarganfod yr ateb! Canllaw dechreuwyr i Shakespeare a'r pedwarawd llinynnol, yn cwrdd â Gŵyl Ymylol Caeredin, yn cwrdd â pherfformiad cerddoriaeth fyw a theatr addysgiadol, sy'n wallgof a, meiddiwn ddweud, yn onest. Doniol, clyfar ac yn eich annog i gofleidio'ch goth mewnol.

Yn cynnwys darn newydd ar gyfer Pedwarawd Llinynnol Mavron gan **Helen Woods** a sgript gan **Martin Riley**.

Theatr Richard Burton
£8-£16

Wedi'i gyflwyno gan Cosmic Music mewn cydweithrediad ag Arts Active, Barry Memo ac Arts Organise



14+ Oed



## Adverse Camber: Stars and their Consolations

14+ Oed

UNITE STUDENTS

**Iau 2 Ebr 7.30pm**

Teithiwch i awyr y nos gyda straeon sydd wedi goleuo'r tywyllwch ers miloedd o flynyddoedd. Daw chwedlau Groegaidd o gytserau yn fyw gan ddau o fawrion adrodd straeon y DU, Hugh Lupton a Daniel Morden. Dewch i brofi straeon pwerus, hynafol gyda seinwedd electro-acwstig gyffrous gan y cyfansoddwr Sarah Liane Lewis a thafluniad cosmig. Gwyliwch y duwiau'n chwarae'n ddidrugaredd gyda marwolion gyda straeon o chwant, balchder ac angerdd. Bydd y cyfan yn eich gadael ar bigau'r draen eisiau darganfod mwy… Daw awyr y nos epig â phersbectif cosmig, tragwyddol i drafferthion dynol, gan gynnig cysur sy'n fawr ei angen yn y dydd sydd ohoni.

Theatr Richard Burton
£9-£18

BSL gan Cathryn McShane


The Zoo That Comes To You

## Little Concerts: Bassoon in the Room!

0-10 Oed

**Sad 28 Maw 11am a 2pm**

Ymunwch â cherddorion proffesiynol ifanc gwych o'r Coleg mewn awr lawen o greu cerddoriaeth gyffrous wedi'i chynllunio o amgylch arddulliau dysgu aelodau ieuengaf ein cynulleidfa.

Stiwdio Seligman
**£7**


Little Concerts

## Theatr Scarlet Oak: The Zoo That Comes To You

5-11 Oed

**Sad 17 Ion 2pm**

Dewch i ymuno â'r ceidwaid sŵ sy'n rhoi cartref diogel a chariadus i anifeiliaid mewn angen. Mae ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt ond does ganddyn nhw ddim ymwelwyr! Felly mae pawb - anifeiliaid a bodau dynol fel ei gilydd - wedi penderfynu ei bod hi'n bryd mynd allan, gweld y byd, a dod â'r sŵ atoch chi. Gyda phypedwaith, cerddoriaeth fyw a chymeriadau chwareus, dewch i ymuno â'r sgwrs am gadwraeth anifeiliaid.

Theatr Richard Burton
**£10 oedolyn | £8 plentyn**






Zoran Dukić ac Aniello Desiderio

## Zoran Dukić ac Aniello Desiderio: Cocktail List

**Iau 15 Ion 7.30pm**

Joch o rywbeth cryf, mymryn o rywbeth melys; cymysgwch y cyfan nes ei fod yn oer fel yr iâ ac addurnwch ag ychydig o awch Lladin. Dyna rysáit ar gyfer y rhaglen feddwol hon gan Zoran Dukic ac Aniello Desiderio – sy'n fwy adnabyddus fel 'A and Z', gitaryddion meistrolgar y mae eu partneriaeth gerddorol wedi bod yn swyno cynulleidfaoedd yn fyd-eang ers tri degawd. Cerddoriaeth gan Piazzolla, Rodrigo ac Albéniz sydd ar y fwydlen...

**Piazzolla Suite** Troileana (trefn. Sergio Assad)
**Isaac Albéniz** Mallorca (trefn. Gruber/Maklar)
**Isaac Albéniz** Rumores de La Caleta (trefn. Miguel Llobet)
**Joaquin Rodrigo** Tonadilla
**Steve Goss** Cocktail List
**Sergio Assad** Tahhiyya li Ossoulina

Neuadd Dora Stoutzker
**£8.50-£17**



## Cerddorfa WNO: Dathliad Blwyddyn Newydd

**Gwe 16 Ion 2.30pm & 7.30pm**

Dathlwch ddyfodiad y Flwyddyn Newydd yn arddull Fienna gyda dehongliad rhythmig Opera Cenedlaethol Cymru o'r Cyngerdd Blwyddyn Newydd byd-enwog yn Fienna. Bydd Cerddorfa WNO yn llenwi'r lle gyda detholiad bendigedig o waltsiau, polcas a dawnsfeydd i godi calonnau a chroesawu'r flwyddyn o'n blaenau mewn steil. Dan gyfarwyddyd y Cyngerddfeistr David Adams, ac yng nghwmni Artistiaid Cyswllt diweddaraf WNO, mwynhewch gerddoriaeth ddisglair Johann Strauss II, naws danbaid cerddoriaeth Dvořák a dawnsfeydd bywiog gan Brahms a Strauss, a mwy.

Neuadd Dora Stoutzker
**£5-£22**

## Llŷr Williams: Britten a Chyfoeswyr Prydeinig

**Iau 22 Ion 7.30pm**

I’r Benjamin Britten ifanc, gwyliau ym Mhrestatyn oedd yr allwedd i fyd newydd o ffraethineb a dyfeisgarwch cerddorol. Dyna fan cychwyn y daith dywys liwgar hon trwy fydysawd gwyllt a gwych (a rhyfeddol yn aml) cerddoriaeth piano Prydeinig o’r ugeinfed ganrif: campweithiau a miniaturau gan Britten, Warlock, Moeran a Tippett, i gyd yn dod yn fyw dan fysedd y pianydd penigamp ac artist cyswllt CBCDC, Llŷr Williams.

Neuadd Dora Stoutzker
£12-£25

UNITE STUDENTS


Llŷr Williams


Sergio Carolino

## Sergio Carolino a Cerddorion RWCMD: SubWoofer

**Gwe 23 Ion 7.30pm**

Wedi’i gydnabod fel un o chwaraewyr tiwba mwyaf clodwiw’r byd, mae Sérgio Carolino ynghyd â cherddorion o’n hadrannau pres a jazz yn cyflwyno SubWoofer - prosiect arloesol sy’n archwilio creadigrwydd cerddorol y tu hwnt i gerddoriaeth glasurol. Bydd cyfuno genres, byrfyfyrio ac arbrofi sonig yn arddangos amlochredd a phŵer mynegiannol offerynnau pres isel. Gan ymgorffori jazz, roc, cerddoriaeth electronig a thraddodiadau poblogaidd, ymunwch â ni am gyngerdd sy’n ailddyfeisio traddodiadau ac yn archwilio gorwelion creadigol newydd.

Neuadd Dora Stoutzker
£8-£16






Afel Bocoum

## Afel Bocoum

**Iau 29 Ion 7.30pm**

Ers dros dair degawd, mae’r cerddor chwedlonol Afel Bocoum wedi bod yn warcheidwad o enaid cerddoriaeth Afon Niger Mali. Yn gydymaith cerddorol i arloeswr mawr blues yr anialwch diweddar o Mali, Ali Farka Touré, lansiodd yrfa unigol gyda’i albwm cyntaf ym 1999, ’Alkibar’ (The Messenger), ac enillodd gydnabyddiaeth ryngwladol trwy gydweithrediadau â Damon Albarn, gan gynnwys ’Mali Music’ yn 2002. Nawr, fel un o artistiaid mwyaf annwyl y Sahel a llysgennad dros offerynnau sydd mewn perygl fel y liwt njurkel a’r ffidil njarka.

Neuadd Dora Stoutzker
£20


Julian Argüelles

## Julian Argüelles a Cherddorfa Jazz CBCDC

**Gwe 30 Ion 7.30pm**

Mae’r sacsoffonydd a’r cyfansoddwr gwobrwyedig Julian Argüelles yn chwarae cymysgedd unigryw o jazz cyfoes Prydeinig cyffrous wedi’i drwytho â rhythmau Sbaenaidd, grŵfs De Affrica, band pres, a dylanwadau clasurol. Mae’n ymuno â Cherddorfa Jazz CBCDC ar gyfer cyngerdd o ddathlu sy’n cynnwys ei gerddoriaeth wreiddiol wedi’i threfnu’n arbenigol ar gyfer y band, ynghyd ag amrywiaeth o gerddoriaeth sy’n bwysig iddo ef; yn enwedig cerddoriaeth Township De Affrica. Byddwch yn barod am gyfansoddiadau hardd, rhythm heintus ac ensemble pwerus.

Neuadd Dora Stoutzker
£8.50-£17



Shiva Fesharekı

## Shiva Fesharekı a Cyfansoddwyr CBCDC: Liquid Ziggurat

**Gwe 6 Chwe 7.30pm**

Mae'r cyfansoddwr, artist a throellwr disgiau o dras Prydeinig-Iranaidd, Shiva Fesharekı, yn dod ynghyd â chyfansoddwyr CBCDC i gyflwyno Liquid Ziggurat – sef gosodiad-berfformiad 3D arloesol. Gan gymryd ysbrydoliaeth o Dreftadaeth Bersiaidd Fesharekı, mae'n cysylltu sain a dirgryniad â phatrymau sy'n digwydd yn naturiol yn y bydysawd. Mae hon yn ffurf newydd o greu cerddoriaeth gyda fersiynau sy'n esblygu'n barhaus ac yn dangos sain fel deunydd hylifol. Trwy gysylltu cerddoriaeth ag amrywiaeth o ddisgyblaethau, mae'n dangos sut mae popeth yn gysylltiedig â'i gilydd.

Neuadd Dora Stoutzker
£8-£16

## Roots of Qawwali

**Sad 7 Chwe 7pm**

Mae Qawwali World yn cyflwyno'r cerddor meistrolgar, Chand Ali Khan, a'i ensemble yn fyw mewn cyngerdd gyda'u hail-ddehongliadau rhyfeddol o'r traddodiad clasurol Qawwali yn archwilio alawon Sufiana cyfareddol o'r gorffennol i'r presennol. Wedi'i arwain gan ddawn artistig ddigyffelyb, disgybl i'r arwr Ustad Rahat Fateh Ali Khan, mae'r cyngerdd hwn yn addo profiad trochol sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau diwylliannol.

Neuadd Dora Stoutzker
£26.50-£46.50



Roots of Qawwali

## Ian Bousfield a Band Pres CBCDC: Strike up the Band

**Gwe 13 Chwe 7.30pm**

Cymysgedd bywiog o glasuron oesol a pherlau cyfoes ar gyfer band pres, yn cynnwys y chwaraewr trombôn rhyngwladol clodwiw, Ian Bousfield. Noson berffaith o ddarganfyddiad a phleser, bydd rhywbeth ar gyfer pob chwaeth gerddorol yn y rhaglen hon. O ffefrynnau cyfarwydd sy'n cynnwys 'I Will Follow Him' a'r gân jazz safonol 'Strike up the Band', i berlau llai adnabyddus gan y cyfansoddwr o'r Alban, Buxton Orr, a'r cyfansoddwr o Loegr, Edward Gregson.

Neuadd Dora Stoutzker
£8.50-£17



# Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway


## Lise de la Salle

**Sul 8 Chwe 11am**

Mae hi bob amser yn bleser pan fydd Lise de Salle yn dychwelyd i CBCDC – wedi'r cyfan, dyma bianydd a ddisgrifiwyd gan Gramophone fel 'dawn un mewn miliwn'! Heddiw, bydd yn ein cludo o Gaerdydd i Baris, gan deithio yn ôl traed Mozart, Liszt a Ravel mewn cyngerdd a ysbrydolwyd gan ddirgelwch, disgleirdeb a rhamant pur Dinas y Goleuadau.

Neuadd Dora Stoutzker
£12-£25

UNITE STUDENTS



Lise de la Salle



Alim Beisembayev

## Alim Beisembayev

**Sul 29 Maw 11am**

'Nid oes amheuaeth ynghylch statws Beisembayev' meddai un beirniad pan gipiodd Alim Beisembayev y gwobrau i gyd yng Nghystadleuaeth Piano Ryngwladol Leeds 2021 - ac nid oes geiriau mewn gwirionedd i ddisgrifio celfyddyd y pianydd ifanc rhyfeddol hwn o Kazakh. Felly, dewch i'w glywed drosoch eich hun: mewn datganiad hynod ramantus wedi'i goroni gan Sonata yn B leiaf aruthrol Liszt. Angerdd pur...

**Schubert** Moments Musicaux D780
**Schubert** Wanderer Fantasy D760
**Liszt** Sonata in B minor

Neuadd Dora Stoutzker
£12-£25

UNITE STUDENTS

## Christopher Ward a Justina Gringytė gyda Cherddorfa WNO

**Sad 14 Chwe 7.30pm Sul 15 Chwe 2pm**

Ymunwch ag Arweinydd, Christopher Ward, y mezzo-soprano arobryn, Justina Gringytė (La Forza Del Destino, Roberto Devereux) a Cherddorfa WNO ar gyfer cyngerdd a fydd yn swyno calonnau a'r meddyliau. Mae'r cyngerdd yn agor gydag Adoration gan Florence Price. Mae cân gylchol Berlioz, Les Nuits dété, sy'n seiliedig ar chwe cherdd, yn archwilio cynnydd cariad, ac daw'r cyngerdd i ben gyda Symffoni Rhif 4 Bruckner.

Neuadd Dora Stoutzker
£10-£26



Justina Gringytė

## James Ehnes ac Andrew Armstrong

**Mer 18 Chwe 7.30pm**

'Rhyfeddol' oedd sut y disgrifiodd y Daily Telegraph y feiolinydd o Ganada, James Ehnes, '- meddyliwr y feiolin yn ogystal â chwaraewr hynod feistrolgar'. Mae gan Ehnes gwlwm cerddorol unigryw gyda'r pianydd Andrew Armstrong, ac mae'r datganiad arbennig hwn yng Nghaerdydd yn eich cludo o geinder Mozart i angerdd tywyll Elgar, yn ogystal â Sonata yn G hudolus Ravel, dan ddylanwad jazz. Llwyr gyfareddol.

**Mozart** Sonata Feiolin Rhif 32 yn B feddalnod fwyaf, K.454
**Elgar** Sonata Feiolin yn E leiaf, Op.82
**Ravel** Sonata Feiolin Rhif 2 yn G fwyaf, M.77

Neuadd Dora Stoutzker
**£14-£28**




James Ehnes

## Ian Shaw Sings Stephen Sondheim: Stephensong

**Iau 19 Chwe 7.30pm**

Gyda'i gymysgedd nodweddiadol o ddyfnder emosiynol, ffraethineb a meistrolaeth lleisiol, mae Ian Shaw yn ail-ddychmygu caneuon eiconig Sondheim trwy lens jazz - gan eu trwytho â naws ffres tra'n anrhydeddu eu disgleirdeb melodig, emosiynol a theatrig. Gyda chyfeiliant gan y pianydd nodedig o'r Iseldiroedd, Barry Green, bydd y perfformiad hwn yn cyflwyno harmonïau cyfoethog, trefniannau dyfeisgar, ac eiliadau o hud theatr gerddorol pur.

Theatr Richard Burton
**£10-£20**



Ian Shaw





## Sinfonia Cymru a Laura van der Heijden

**Sad 28 Chwe 7.30pm**

O alawon cynhyrfus Dobrinka Tabakova i egni crai Bartók, dyma gyngerdd sy'n daith wyllt trwy weadau daearol a chyferbyniadau cyffrous. Ymunwch â ni wrth i enillydd cystadleuaeth Cerddor Ifanc y BBC, Laura van der Heijden, sy'n adnabyddus am ei chwarae 'meddylgar, pwerus a didwyll' (BBC Music Magazine), arwain Sinfonia Cymru mewn noson wefreiddiol.

Neuadd Dora Stoutzker
**£10-£20**



Laura van der Heijden

## Cyswllt

**Dewch yn aelod o £5 y mis ac ymunwch â chymuned anhygoel o gefnogwyr sy'n helpu ein myfyrwyr i gyrraedd eu llawn botensial yn CBCDC.**

**rwcmd.ac.uk/cy/support-us**





## Dathliad Dydd Gŵyl Dewi

AM DDIM

**Sul 1 Maw 1.30pm**

Cymdeithas Gymraeg y Coleg yn cyflwyno rhaglen ysbrydoledig o ffefrynnau Cymreig yng Nghyntedd Carne.

**Cyntedd Carne**

## Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

**Sul 8 Maw**

Ymunwch â ni am ddiwrnod o gerddoriaeth a thrafodaethau i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Cyfle i ddarganfod cerddoriaeth cyfansoddwyr benywaidd llai adnabyddus, cerddoriaeth hen a newydd gan fenywod, cyfansoddwyr traws ac anneuaidd gan gynnwys cerddorion CBCDC, a dod yn rhan o'r sgwrs am fenywod mewn cerddoriaeth.

### Darganfyddiadau a thrafodaethau

**11am**

**Ystafell Datganiadau Corus**

Am ddim

### MissRepresented

**1pm**

**Oriel Weston**

£5

UNITE STUDENTS

### Safbwyntiau Benywaidd

**2.30pm**

**Ystafell Datganiadau Corus**

£5

UNITE STUDENTS

## Dydd Gŵyl Dewi: Dathlu Mansel Thomas

**Sul 1 Maw 3pm**

Gan ganolbwyntio ar gerddoriaeth Mansel Thomas, ei gyfoeswyr a'i ddylanwad ar fywyd cerddorol Cymru, mae adran gerddoriaeth y Coleg yn cyflwyno prynhawn o gerddoriaeth Gymreig i ddathlu bywyd diwylliannol ein cenedl gerddorol.

**Neuadd Dora Stoutzker**

**£8-£16**

UNITE STUDENTS





## Pedwarawd Carducci: Different Trains

**Iau 5 Maw 7.30pm**

Yn y blynyddoedd cyn y Mileniwm, trawsnewidiodd Steve Reich a Philip Glass y ffordd rydym yn gwrando - gan greu cerddoriaeth yr un mor egnïol ag ydyw o farddonol, a'r un mor fodern ag ydyw o oesol. Ym mlwyddyn dathlu pen-blwydd Reich yn 90 oed, mae Pedwarawd Carducci yn chwarae un o'i gampweithiau mwyaf cyfareddol, ochr yn ochr â Thrydydd Pedwarawd Philip Glass a rhywbeth newydd sbon o ddychymyg rhyfeddol a dawnsgar Vincenzo Lamagna.

**Philip Glass** Pedwarawd Llinynnol Rhif 3 'Mishima'
**Vincenzo Lamagna** Intelligenza Animale (Premiere byd)
**Steve Reich** Different Trains

**Neuadd Dora Stoutzker**

**£9-£18**

UNITE STUDENTS



Pedwarawd Carducci

Cefnogir rhaglen preswyliadau Pedwarawd Llinynnol CBCDC gan **Ymddiriedolaeth Frost** ac **Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston**



Pedwarawd Fibonacci

## Pedwarawd Fibonacci

**Iau 7 Mai 7.30pm**

Mae enw'r Pedwarawd Fibonacci yn awgrymu posibiliadau diddiwedd - ac mae hynny'n wir, nid oes unrhyw emosiwn nad sy'n bosibl i'r ensemble ifanc rhagorol ac aml-wobrwyedig hwn, sydd ar hyn o bryd yn Bedwarawd Preswyl CBCDC. Intimate Letters deifiol Janacek yw calon danllyd cyngerdd sy'n dechrau gyda melodïau atgofus cefn gwlad Moravia ac yn gorffen gyda Schumann ar ei fwyaf personol ac angerddol.

**Trad.** Moravian Folk Songs (trefn. Pedwarawd Fibonacci)
**Janáček** Pedwarawd Llinynnol Rhif 2 'Intimate Letters'
**Schumann** Pedwarawd Llinynnol Rhif 3 yn A fwyaf

**Neuadd Dora Stoutzker**

**£9-£18**

UNITE STUDENTS

## RWCMD Chamber Choir ac aelodau o I Fagiolini

**Gwe 6 Maw 7.30pm**

Mae aelodau'r ensemble lleisiol 'I Fagiolini', a ddisgrifiwyd gan y Spectator fel 'rhai sy'n newid siâp cerddoriaeth', yn dod ynghyd â chôr Siambr y Coleg mewn rhaglen sydd â chyfoeth sain yn greiddiol iddi. Dilynir gwaith aml-gorau Benevoli, sy'n taflu synau o amgylch yr adeilad ac yn defnyddio techneg gyfoes feiddgar o'r enw 'holding the mule', gan Monteverdi, y mae ei emosiynau angerddol fel petai'n cynnwys y byd cyfan mewn ychydig fariau, a Carissimi gyda synau sy'n cydio yn y gwrandäwr ganrifoedd yn ddiweddarach. Ac i orffen? Dau gampwaith modern a gydnabyddir yn eang gan Joanna Marsh.

Neuadd Dora Stoutzker
£8.50-£17

UNITE STUDENTS

## Jervaulx Singers: Les Chansons des Roses

**Sul 8 Maw 2pm**

Mae Cantorion Jervaulx, yn eu perfformiad cyntaf yn y Brifddinas, yn cyflwyno dau gylch caneuon gogoneddus: Les Chansons des Roses gan Morton Lauridsen a The Passing of the Year gan Jonathan Dove. Ymunwch â nhw ar gyfer y perfformiad byw hwn o'u halbwm cyntaf, ynghyd â golygfeydd opera wedi'u lled-lwyfannu, caneuon unigol, a danteithion corawl.

Neuadd Dora Stoutzker
£10-£20



RWCMD Chamber Choir

Cerddoriaeth
Mawrth 2026



## BBC NOW a Cherddorfa Symffoni CBCDC

**Sul 15 Maw 3pm**

O dân gwyllt cerddorfaol dathliadol, Agorawd Nadoligaidd Shostakovich, i un o'i symffonïau mwyaf, Symffoni Rhif 10, daw Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC a cherddorion Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ynghyd i gyflwyno dau gampwaith cerddorol. Gan bortreadu ing a dicter ochr yn ochr â dwyster a jiwbilî, mae'r darnau hyn, a berfformiwyd am y tro cyntaf yn y blynyddoedd yn dilyn marwolaeth Stalin, yn cyfleu cyfnod mewn amser.

Neuadd Hoddinott y BBC
£6-£14

## Cerys Hafana

**Iau 26 Maw 7.30pm**

Mae'r artist o Gymru Cerys Hafana, un o artistiaid gwerin cyfoes ifanc mwyaf cyffrous y DU, yn dychwelyd i'r Coleg gyda'i halbwm diweddaraf Angel, sy'n cynnwys sain triawd deinamig newydd (drymiau, bas dwbl, sacsoffon alto). Gan archwilio'n ddwfn gerddoriaeth finimaliaeth, cerddoriaeth draddodiadol ac avant-gwerin, mae hi'n amrywio rhwng caneuon (i gyd yn Gymraeg) ac offerynnau.

Neuadd Dora Stoutzker
£9-£18

UNITE STUDENTS



Cerys Hafana



## Band Mawr CBCDC: Dathlu Billie Holiday a Sarah Vaughan

**Gwe 27 Maw 7.30pm**

Band Mawr CBCDC yn camu i'r llwyfan ac yn perfformio caneuon poblogaidd gan ddau o leisiau jazz mwyaf ysbrydoledig America yn yr ugeinfed ganrif – Billie 'Lady Day' Holiday a Brenhines y Bebop, Sarah Vaughan. Gyda'u harddulliau canu llawn enaid ac emosiwn, mae'r ddwy eicon yma wedi arwain y ffordd. Holiday gyda'i brawddegu lleisiol unigryw a greodd arddull swing anghyffredin, a Vaughan gyda'i byrfyfyrio sgat anhygoel a'i hystod lleisiol eang. Mae'r cyngerdd yn dechrau gyda chyfeiriad at arwyr Village Vanguard, y trympedwr Thad Jones a'r drymiwr Mel Lewis, a gyfareddodd y byd jazz gyda sain swing ffres ac ymagwedd hollol newydd at y genre band mawr.

Neuadd Dora Stoutzker
**£11-£22**
UNITE STUDENTS

Shashank Subramanyam



## Shashank Subramanyam

**Llu 30 Maw 7.30pm**

Ffliwtydd byd-enwog sy'n cael ei ddathlu am ei feistrolaeth ar gerddoriaeth glasurol De Indiaidd (cerddoriaeth Carnatig) yw Shashank Subramanyam. Gyda thonau sy'n disgleirio ag emosiwn a dyfnder, mae Shashank yn trawsnewid y ffliwt bambŵ gyffredin - yr offeryn mwyaf hynafol ac organig - yn llais sy'n canu i'r enaid. Yn ymuno â Shashank fydd Parupalli S. Phalgun, chwaraewr meistrolgar y mridangam (drwm), sy'n adnabyddus am ei fedrusrwydd rhythmig a gwybodaeth ddofn am theori Carnatig.

Neuadd Dora Stoutzker
**£9-£18**
**Wedi'i gyflwyno mewn cydweithrediad ag Asian Arts Agency**
UNITE STUDENTS



Rownd Derfynol y Gystadleuaeth Concerto



## Rownd Derfynol y Gystadleuaeth Concerto

**Mer 4 Chwe 7pm**

Yn nhymor yr Hydref 2025 bu myfyrwyr cerddoriaeth yn cystadlu yn rowndiau cyntaf ein cystadleuaeth concerto flynyddol. Mae hwn yn gyfle i glywed ein cerddorion rhagorol sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol yn perfformio am yr anrhydedd o ymddangos fel yr unawdydd gydag un o brif ensembles CBCDC.

Neuadd Dora Stoutzker
**£7-£14**
UNITE STUDENTS

## Rownd Gynderfynol Gwobr Syr Ian Stoutzker

**Mer 4 Maw 6pm**

Cyfrannodd Ian Stoutzker yn hael at adeiladu neuadd gyngerdd y Coleg a rhoddodd y wobr flynyddol hon i'n myfyriwr cerddoriaeth mwyaf rhagorol, i'w dyfarnu trwy gystadleuaeth. Ar ôl coroni'r bariton o Gymro Owain Rowlands yn enillydd Gwobr Stoutzker 2025, mae ein sylw'n troi at yr offerynwyr. Ymunwch â ni wrth i ni chwilio am unawdwyr 2026 a fydd yn cystadlu am y brif wobr yn nhymor yr haf.

Neuadd Dora Stoutzker
**£7-£14**
UNITE STUDENTS

## Gwobr Eric Hodges

**Iau 12 Maw 2pm**

Mae sonatâu piano Beethoven yn gasgliad helaeth ac amrywiol o brofiad dynol, ac yn her dechnegol a cherddorol enfawr i unrhyw bianydd. Rhoddir yr her hon i fyfyrwyr CBCDC wrth iddynt fynd i'r afael â'r sonatâu enfawr hyn, gan gystadlu am Wobr flynyddol nodedig Eric Hodges.

Oriel Weston
**£7-£14**
UNITE STUDENTS


Ben Goldscheider a Richard Uttley

## Ben Goldscheider a Richard Uttley (Corn a phiano)

### Gwe 23 Ion 1.15pm

Gweithiau hen a newydd ar gyfer y corn – o farddoniaeth Mahler a Schumann i ddarnau byr cyfoes sy'n cyffroi'r glust (rhai wedi'u hysgrifennu'n arbennig ar ei gyfer) a theyrnged hyfryd o annisgwyl i Winnie the Pooh!

Neuadd Dora Stoutzker


Lumas Winds

## Lumas Winds

### Gwe 30 Ion 1.15pm

'Summer Music' heulog Samuel Barber, mewn gweithiau siambr bywiog gan Dvořák ac Anna Clyne, ac mewn darn syfrdanol wedi'i ysbrydoli gan jazz gan gyfansoddwr 'Mission Impossible' Lalo Shifrin.

Neuadd Dora Stoutzker


Vincent de Kort

## Vincent de Kort ac Unawdwyr Llinynnol CBCDC

### Gwe 13 Chwe 1.15pm

Dan arweiniad rhagorol Vincent de Kort, bydd ein perfformwyr yn cyflwyno dau waith eiconig. Er eu bod yn gwbl wahanol o ran arddull, mae 'Cyfres Gerddorfaol Rhif 3' J.S. Bach a 'Verklärte Nacht' Schoenberg yn adlewyrchu ymgais i ddod o hyd i'r goruchel.

Neuadd Dora Stoutzker

**Cefnogir gan y Teulu Biss**


Andrew Wilson-Dickson

## Gweithiau Siambr: Andrew Wilson-Dickson

### Gwe 20 Chwe 1.15pm

Dathliad cerddorol ar gyfer pen-blwydd 80 oed y cyfansoddwr o Brydain a chyfaill a thiwtor CBCDC, Andrew Wilson-Dickson. Gan dynnu ar gynnyrch cyfoethog ei waith cyfansoddi ac yn cynnwys Andrew ei hun mewn ymddangosiad gwadd wrth yr allweddellau.

Neuadd Dora Stoutzker

**Dewis Pris**
**Darbodus £6 | Pris arferol £8 | Talu ymlaen £10**





## Joel von Lerber (telyn)

### Gwe 27 Chwe 1.15pm

Rydym wrth ein bodd yn croesawu'r seren o'r Swistir ar gyfer cyngerdd llawn straeon, boed yn rhai gwerin o Fohemia a Gorllewin America, neu'r sonata hyfryd gan yr athrylith Ffrengig sydd wedi'i hesgeuluso, Germaine Tailleferre.

Neuadd Dora Stoutzker


Joel von Lerber

## Offerynnau Taro CBCDC: Steve Reich

### Gwe 6 Maw 1.15pm

Ym mlwyddyn ei ben-blwydd yn 90 oed, mae pedwarawd hyfryd Steve Reich ar gyfer piano ac offerynnau taro yn cael ei gynnwys ochr yn ochr â dau gyfansoddwr cyfoes a chyffrous o Brydain, Dani Howard ac Ayana Witter Johnson.

Neuadd Dora Stoutzker


Offerynnau Taro CBCDC

## Cerddorfa Chwyth CBCDC

### Gwe 26 Maw 1.15pm

O gorachod i gladdgelloedd Rhufeinig a chywion heb ddeor yn dawnsio, ewch am dro trwy luniau sain lliwgar Mussorgsky.

Neuadd Dora Stoutzker


Cerddorfa Chwyth CBCDC

## Gerard McChrystal a David Zucchi: Brightening

### Gwe 27 Maw 1.15pm

Dirgelion Baróc, curiadau calon gwyllt, slapio hapus a synau strydoedd Gwlad Thai – mae'r sacsoffon yn sicr yn amlbwrpas, ac yn nwylo Gerard McChrsytal o CBCDC a'r Canadaidd David Zucchi mae'r posibiliadau cerddorol yn ddiddiwedd.

Neuadd Dora Stoutzker

UNITE STUDENTS

Diolch i nawdd hael **Unite Students**, mae gan unrhyw fyfyriwr sy'n byw mewn llety Unite yng Nghaerdydd hawl i **docyn £3** ar gyfer unrhyw gyngerdd awr ginio.


Gerard McCrystal



Yma yn y Coleg, credwn fod cerddoriaeth i bawb. Y gwanwyn hwn, rydym yn cyflwyno cyfres o ddiwrnodau offerynnol i bobl ifanc er mwyn cyffroi ac ysbrydoli.

## Diwrnod Gitâr Ieuenctid

Sad 17 Ion 9.30am–3.30pm

Cyfle i gitaryddion acwstig neu glasurol gyd-chwarae a gweithio gyda'n Pennaeth Gitâr, Helen Sanderson, a'i gwesteion arbennig Zoran Dukic ac Aniello Desiderio. Ymunwch â'n cerddorfa gitâr am y diwrnod - nid oes rhaid i chi allu darllen cerddoriaeth, dim ond cydio yn eich gitâr!

**9–18 Oed | Dechreuwyr +**

## Diwrnod Corn Ffrengig Ieuenctid

Sad 24 Ion 9.30am–4pm

Diwrnod o weithdai yn rhannu llawenydd chwarae mewn ensemble corn Ffrengig a fydd yn cyrraedd uchafbwynt gyda sesiwn rhannu yn Neuadd Dora Stoutzker gyda'r chwaraewr corn ifanc Ben Goldscheider a gwesteion eraill.

**9–18 Oed | Dechreuwyr +**

## Diwrnod Telyn Ieuenctid: Taro Tant

Sad 28 Chwe 9am–3pm

Darganfyddwch offeryn cenedlaethol Cymru mewn diwrnod o weithdai, chwarae ensemble telyn a dosbarthiadau meistr gydag un o delynorion blaenllaw ei genhedlaeth, Joel von Lerber, a Phennaeth Telyn y Coleg, Kathryn Rees.

**9–18 Oed | Gradd 1+**

## Diwrnod Chwythbrennau Ieuenctid

Sad 31 Ion 9.30am–4pm

Ymunwch â ni am ddiwrnod ymarferol yn archwilio popeth sy'n ymwneud ag offerynnau chwythbrennau, dan arweiniad ein Pennaeth Chwythbrennau, Robert Plane, y tiwtor sacsoffon o fri, Gerard McChrystal, ac Ensemble Cyswllt CBCDC, Lumas Winds.

**9–18 Oed | Gradd 4+**

## Diwrnod Offerynnau Taro Ieuenctid: Big Bash

Sad 7 Maw 10am–3pm

Ymunwch â'n Pennaeth Offerynnau Taro a chyd Brif Chwaraewyr Timpani Cerddorfa Symffoni Llundain, Pat King, yn ein diwrnod offerynnau taro hwyliog a rhyngweithiol ar gyfer pob gallu.

**6–18 Oed | Dechreuwyr +**

**Tocynnau 029 2039 1391**

**www.rwcmd.ac.uk/whats-on**

**Hoffai'r coleg ddiolch i'r cyrff cyhoeddus, unigolion, ymddiriedolaethau, sefydliadau a noddwyr sy'n ein cefnogi.**

**The college would like to thank the public bodies, individuals, trusts, foundations and sponsors who support us.**

**rwcmd.ac.uk/thankyou**

**Noddwr | Patron**
HM King Charles III

**Llywydd | President**
Dame Shirley Bassey CH DBE FRWCMD

**Cadeirydd | Chair**
Michael Plaut OBE

**Is-Lywyddion**
**Vice Presidents**

Philip Carne MBE FRWCMD
Rhodri Talfan Davies BA (Hons) Oxon
Sir Anthony Hopkins CBE FRWCMD
Professor Uzo Iwobi CBE
Dame Gwyneth Jones CBE FRWCMD
Captain Sir Norman Lloyd-Edwards KCVO, GCStJ, RD*, JP, RNR
Menna Richards BA FRWCMD
Lady Anya Sainsbury FRWCMD
Michael Sheen FRWCMD
Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD
Edward Thomas FRWCMD
The Rt Revd and Rt Hon The Lord Williams of Oystermouth

**Cylch Llywyddion Ysgol Opera David Seligman**
**The David Seligman Opera School Circle of Presidents**

Rebecca Evans CBE FRWCMD
Sir Brian McMaster CBE FRWCMD
Sir David Pountney CBE FRWCMD
Carlo Rizzi FRWCMD
Sir Bryn Terfel CBE FRWCMD

Mae'r Ysgol Opera David Seligman wedi ei chefnogi gan rodd David Seligman.

The David Seligman Opera School is supported by the David Seligman gift

**Unigolion | Individuals**

Dame Shirley Bassey CH DBE FRWCMD
The Biss Family
Philip Carne MBE FRWCMD and Christine Carne FRWCMD
Professor Indira Carr
Lord Mervyn and Lady Davies
Hywel and Mary George
The late Eira and Don Halley
The late Victoria Harris
James Harrison
The late Mair Haywood
The late Edwin James
The late Keith James
The late Leonard and Marian Jones
The late Elaine Hugh-Jones
The late Arthur Morris Jones
The late Barbara Knapton and Kathleen Cavill
Sir Brandon and Lady Lewis
The family of the late Sir Charles Mackerras CBE FRWCMD
Samantha Maskrey
Sean Mathias
The late Eluned McGrenary
Gregory Nasmyth and the Hon. Samantha Rowe-Beddoe
Richard Parry
Thomas Percy
Alan Peterson OBE, Maggie Peterson & Hywel Peterson
The late Gwenllian Phillips in memory of her husband
The late Phoebe Ida Phillips
Janet Price FRWCMD
The late Eileen Price
Sir Jonathan Pryce
The late Trevor Pugsley
John Rath and John Underwood
The late Ron Redwood
Carlo Rizzi FRWCMD
The late Eric and Angharad Roberts
The late Lord Rowe-Beddoe DL and Lady Rowe-Beddoe
The late David Seligman OBE FRWCMD and the Philippa Seligman legacy
The late Jacqueline Skarvellis
The late Sir Ian Stoutzker CBE FRWCMD
Sir Howard Stringer FRWCMD and Lady Jennifer Stringer
The late Peter Sutton
Peter and Janet Swinburn
Babs and Debs Thomas
Sarah and James Trafford
Matthew and Kate Tucker
The late Beryl Tythicott
Sheila Walton
The late Marcia Watts
The late Neil and Mary Webber
Ted and Val Yates
Ann Ziff
Clive Morris
Catherine Zeta-Jones CBE FRWCMD

**Cymorth Busnes**
**Business Support**

Hugh James
Steinway
Bad Wolf

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau Trusts and Foundations**

Antares Trust
Albert and Eugenie Frost Music Trust
Anthony G Woolcott Charitable Trust
Bowerman Charitable Trust
British Schools & Universities Foundation
Gareth Jones Trust
Helen Rachael Mackaness Charitable Trust
James Pantyfedwen Foundation
Sir John Gielgud Charitable Trust
Julian Bream Trust
Maria Björnson Memorial Fund
Nick Lewis Memorial Trust
Pontoon Trust
Simon Gibson Charitable Trust
South Square Trust
Spielman Charitable Trust
Starmer Jones Music Trust Fund
Waterloo Foundation

**Cylch Y Cadeiryddion**
**The Chairs' Circle**

John Derrick and Preben Oeye
Mr and Mrs Vyvyan and Valerie Ferrer
Richard Lloyd-Owen and Patricia Cabrera
Roger Munnings CBE and Karen Munnings
Peter Saunders OBE
Atlantic Property Development PLC (Babs Thomas)





**Cylch '49 | The '49 Circle**

Diolch i'r rhai sydd wedi cofio CBCDC yn eu hewyllys.

Thanks to those who have remembered RWCMD in their will.

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r
FUNDRAISING REGULATOR
RHEOLEIDDWR CODI ARIAN

Elusen Gofrestredig 1139282
Registered Charity 1139282

**Cyswllt | Connect**

Diolch i'n haelodau *Cyswllt* a *Cyswllt* Cyfeillion, sydd wedi eu henwi ar ein gwefan, am eu cefnogaeth ffyddlon o'r Coleg a'i fyfyrwyr.

Thanks to our *Connect* and Friends *Connect* members, who are acknowledged on our website, for their loyal support of the College and its students.

**Hoffem hefyd diolch i bawb a wnaeth gyfrannu i Gronfa Syr Bryn Terfel a Gwobr Shakespeare David Rowe-Beddoe, yn ogystal â'r rheini sy'n cyfrannu at ein gwobrau blynyddol.**

**We would also like to thank everyone who contributed to Cronfa Syr Bryn Terfel and The David Rowe-Beddoe Shakespeare Prize, as well as those who donate to our annual prizes.**

**Cymorth Busnes | Business Support**

**Ymddiriedolaethau a Sefydliadau | Trusts & Foundations**

**Cyrff Cyhoeddus | Public Bodies**

# Digwyddiadau | Events

Gwanwyn | Spring 2026

| Dyddiad \| Date | Digwyddiad \| Event | Lleoliad \| Venue |
|---|---|---|
| 16 Ion \| Jan–27 Maw \| Mar | AmserJazzTime | Cyntedd Carne Foyer |
| 15 Ion \| Jan | Zoran Dukić & Aniello Desiderio: Cocktail List | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 16 Ion \| Jan | WNO Orchestra: A New Year's Celebration | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 17 Ion \| Jan | Youth Guitar Day | Amrywiol \| Various |
| 17 Ion \| Jan | Scarlet Oak Theatre: The Zoo That Comes To You | Theatr Richard Burton Theatre |
| 19 Ion \| Jan–2 Ebr \| Apr | Make: Space | Galeri Linbury Gallery |
| 22 Ion \| Jan–19 Mar \| Maw | Classical Café | Cyntedd Carne Foyer |
| 22 Ion \| Jan | Llŷr Williams: Britten & British Contemporaries | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 23 Ion \| Jan | Ben Goldscheider & Richard Uttley | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 23 Ion \| Jan | Sergio Carolino & RWCMD Musicians: SubWoofer | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 24 Ion \| Jan | Youth French Horn Day | Amrywiol \| Various |
| 28 Ion \| Jan | Cabaret at the College | Cyntedd Carne Foyer |
| 29–30 Ion \| Jan | Opera Scenes | Theatr Richard Burton Theatre |
| 29 Ion \| Jan | Afel Bocoum | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 30 Ion \| Jan | Lumas Winds | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 30 & 31 Ion \| Jan | Actors' Showcase | Theatr Bute Theatre |
| 30 Ion \| Jan | Julian Argüelles & RWCMD Jazz Orchestra | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 31 Ion \| Jan | Youth Woodwind Day | Amrywiol \| Various |
| 4 Chwe \| Feb | Concerto Competition Final | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 6 Chwe \| Feb | Shiva Feshareki & RWCMD Composers: Liquid Ziggurat | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 7 Chwe \| Feb | Roots of Qawwali | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 8 Chwe \| Feb | Steinway International Concert Series: Lise de la Salle | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 12 Chwe \| Feb | Sound Bar | Cyntedd Carne Foyer |
| 12 Chwe \| Feb | Dame Heccatty Wyrdsister & Mavron Quartet: Macbeth | Theatr Richard Burton Theatre |
| 13 Chwe \| Feb | Vincent de Kort & RWCMD String Soloists | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 13 Chwe \| Feb | Ian Bousfield & RWCMD Brass Band: Strike up the Band | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 14–19 Chwe \| Feb | Cry-Baby | Theatr Bute Theatre |
| 14 & 15 Chwe \| Feb | Christopher Ward & Justina Gringytė with WNO Orchestra | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 18 Chwe \| Feb | James Ehnes & Andrew Armstrong | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 19 Chwe \| Feb | Ian Shaw Sings Stephen Sondheim | Theatr Richard Burton Theatre |
| 20 Chwe \| Feb | Chamber Works: Andrew Wilson-Dickson | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 27 Chwe \| Feb | Joel von Lerber | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 28 Chwe \| Feb | Youth Harp Day: Taro Tant | Amrywiol \| Various |
| 28 Chwe \| Feb | Sinfonia Cymru & Laura van der Heijden | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 1 Maw \| Mar | St David's Day Celebration | Cyntedd Carne Foyer |
| 1 Maw \| Mar | St David's Day Concert: Celebrating Mansel Thomas | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 2 Maw \| Mar–2 Ebr \| Apr | Giant Props Exhibition | Galeri Linbury Gallery |
| 4 Maw \| Mar | Sir Ian Stoutzker Prize Semi-Final | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 5–11 Maw \| Mar | The Watsons | Theatr Richard Burton Theatre |
| 5 Maw \| Mar | Carducci Quartet: Different Trains | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 6–11 Maw \| Mar | The Last Days of Judas Iscariot | Theatr Bute Theatre |
| 6 Maw \| Mar | RWCMD Percussion: Steve Reich | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 6 Maw \| Mar | RWCMD Chamber Choir & members of I Fagiolini | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 7 Maw \| Mar | Youth Percussion Day: Big Bash | Amrywiol \| Various |
| 8 Maw \| Mar | Jervaulx Singers: Les Chansons des Roses | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 8 Maw \| Mar | International Women's Day: Discoveries and discussions | Ystafell Datganiadau Corus<br>Corus Recital Room |
| 8 Maw \| Mar | International Women's Day: MissRepresented | Oriel Weston Gallery |
| 8 Maw \| Mar | International Women's Day: Feminine Perspectives | Ystafell Datganiadau Corus<br>Corus Recital Room |
| 11 Maw \| Mar | Cabaret at the College | Cyntedd Carne Foyer |
| 12 Maw \| Mar | Eric Hodges Prize | Oriel Weston Gallery |
| 15 Maw \| Mar | BBC NOW & RWCMD Symphony Orchestra | Neuadd Hoddinott y BBC<br>BBC Hoddinott Hall |
| 20–24 Maw \| Mar | Orpheus in the Underworld | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 20 & 21 Maw \| Mar | Musical Theatre Showcase | Theatr Richard Burton Theatre |
| 24–26 Maw \| Mar | The Wearable Art Show | Theatr Bute Theatre |
| 26 Maw \| Mar | RWCMD Wind Orchestra | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 26 Maw \| Mar | Sound Bar | Cyntedd Carne Foyer |
| 26 Maw \| Mar | Cerys Hafana | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 27 Maw \| Mar | Gerard McCrystal & David Zucchi: Voyager | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 27 Maw \| Mar | RWCMD Big Band: Celebrating Billie Holiday & Sarah Vaughan | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 28 Maw \| Mar | Little Concerts: Bassoon in the Room! | Stiwdio Seligman Studio |
| 29 Maw \| Mar | Steinway International Concert Series: Alim Beisembayev | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 30 Maw \| Mar | Shashank Subramanyam | Neuadd Dora Stoutzker Hall |
| 2 Ebr \| Apr | Adverse Camber: Stars and their Consolations | Theatr Richard Burton Theatre |

**Ewch i | Visit www.rwcmd.ac.uk/whats-on**

MIX Paper from responsible sources FSC® C106170

The Royal Welsh College of Music & Drama is part of the University of South Wales Group
Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru